OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 1978 (Cy.218)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Ffioedd Myfyrwyr, Dyfarniadau a Chymorth) (Cymru) 2011

Gwnaed - - - -	*9 Awst 2011*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*10 Awst 2011*
Yn dod i rym - -	*31 Awst 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 22 a 43(1) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**1**) ac adrannau 1 a 2 o Ddeddf Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) 1983(**2**), ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**3**) a thrwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 28(6) o Ddeddf Addysg Uwch 2004(**4**) ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**5**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

(**1**) 1998 p.30; cafodd adran 22 ei diwygio gan Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 (p.21), adran 146 ac Atodlen 11, Deddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003 (p.1), Atodlen 6, Deddf Cyllid 2003 (p.14), adran 147, Deddf Addysg Uwch 2004 (p.8), adrannau 42 a 43 ac Atodlen 7 a Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (p.22), adran 257.

(**2**) 1983 p.40; cafodd adran 1 ei diwygio gan Ddeddf Diwygio Addysg 1988 (p.40), adran 237 ac Atodlen 12; Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 (p.13), adran 93 ac Atodlen 8; Deddf Addysg 1994 (p.30), adran 24 ac Atodlen 2; Deddf Addysg 1996 (p.56), adran 582(1) ac Atodlen 37; Deddf Dysgu a Medrau 2000 (p.21) adran 149 ac Atodlen 9; Deddf Addysg 2002 (p.32), adran 215 ac Atodlen 21; Deddf Addysg 2005 (p.18), adran 98 ac Atodlen 14; Gorchymyn Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Cyngor) 2005 (O.S. 2005/3238), erthygl 9 ac Atodlen 1; Gorchymyn Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru a Lloegr) 2010 (O.S. 2010/1080), erthygl 2 ac Atodlen 1 a Gorchymyn yr Awdurdodau Addysg Lleol ac Awdurdodau Gwasanaethau Plant (Integreiddio Swyddogaethau) 2010 (O.S. 2010/1158), erthygl 5 ac Atodlen 2. Cafodd adran 2 ei diwygio gan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (p.30), adran 44 ac Atodlen 4.

(**3**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (ac eithrio i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud unrhyw ddarpariaeth a awdurdodir gan is-adran (2)(a), (c), (j) neu (k), (3)(e) neu (f) neu (5) o adran 22) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 a Gorchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2005 (O.S. 2005/1833 (Cy.149) (C.79)) fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) (Diwygio) 2006 (O.S. 2006/1660 (Cy.159) (C.56)). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraffau 30(1) a 30(2)(c) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32). Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 1 o Ddeddf Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) 1983, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2006 (O.S. 2006/1458) gydag effaith o 8 Mehefin 2006 ymlaen. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 2 o Ddeddf Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) 1983, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas ag adrannau 1 a 2 o Ddeddf Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) 1983 i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraffau 30(1) a 30(2)(d) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**4**) 2004 p.8; mae adran 28 wedi ei diwygio gan Ddeddf Addysg 2005 (p.18), adran 98 ac Atodlen 14.

(**5**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraffau 30(1) a 30(2)(c) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Ffioedd Myfyrwyr, Dyfarniadau a Chymorth) (Cymru) 2011.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 31 Awst 2011 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "Rheoliadau 2011" ("*the 2011 Regulations*") yw Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) 2011(**6**);

ystyr "Rheoliadau 2012" ("*the 2012 Regulations*") yw Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu'r Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Rhif 2) 2011(**7**);

ystyr "y Rheoliadau Ffioedd" ("*Fees Regulations*") yw Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007(**8**);

ystyr "Rheoliadau'r Athrofa Brifysgol Ewropeaidd" ("*European University Institute Regulations*") yw Rheoliadau Grantiau Dysgu'r Cynulliad (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2009(**9**);

ystyr "Rheoliadau'r Cyrsiau a Phersonau Cymhwysol" ("*Qualifying Courses and Persons Regulations*") yw Rheoliadau Ffioedd Myfyrwyr (Cyrsiau a Phersonau Cymhwysol) (Cymru) 2011(**10**); ac

ystyr "Rheoliadau'r Sefydliadau Ewropeaidd" ("*European Institutions Regulations*") yw Rheoliadau Grantiau Dysgu'r Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) 2011(**11**).

Diwygio Rheoliadau 2011

3. Mae Rheoliadau 2011 yn cael eu diwygio yn unol â rheoliadau 4 a 5.

4. Yn rheoliad 2(1), yn y diffiniad o "person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros" ("*person with leave to enter or remain*"), yn lle is-baragraff (a) rhodder—

"(a) sydd—

(i) wedi gwneud cais am statws ffoadur ond sydd, o ganlyniad i'r cais hwnnw, wedi ei hysbysu'n ysgrifenedig gan berson sy'n gweithredu o dan awdurdod Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref, y tybir ei bod yn iawn caniatáu i A ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi ar seiliau diogelwch dyngarol(**12**) neu ganiatâd yn ôl disgresiwn(**13**) er yr ystyrir nad yw A yn gymwys i gael ei gydnabod fel ffoadur; neu

(ii) heb wneud cais am statws ffoadur ond sydd wedi ei hysbysu'n ysgrifenedig gan berson sy'n gweithredu o dan awdurdod Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref y tybir ei bod yn iawn caniatáu i A ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi ar seiliau caniatâd yn ôl disgresiwn;".

5. Yn Rhan 2 o Atodlen 1—

(**6**) O.S. 2011/148 (Cy.32).
(**7**) O.S. 2011/886 (Cy.130).
(**8**) O.S. 2007/2310 (Cy.181), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2008/1259 ac O.S. 2010/1142.
(**9**) O.S. 2009/3359 (Cy.295).
(**10**) O.S. 2011/691 (Cy.103).
(**11**) O.S. 2011/736 (Cy.113).
(**12**) Caniateir i ddiogelwch dyngarol gael ei roi gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol â Rhan 11 o'r Rheolau Mewnfudo a wnaed o dan adran 3(2) o Ddeddf Mewnfudo 1971 (p.77).
(**13**) Caniateir i ganiatâd yn ôl disgresiwn gael ei roi gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 3(1)(b) o Ddeddf Mewnfudo 1971.

(a) yn lle paragraff 5(2)(b), rhodder—

"(b) a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ar y dyddiad y gwnaeth y person hwnnw—

(i) y cais am loches; neu

(ii) y cais am ganiatâd yn ôl disgresiwn, os nad oedd cais am loches wedi ei wneud;";

(b) yn lle paragraff 5(3)(b), rhodder—

"(b) a oedd, ar y dyddiad y gwnaeth y person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros—

(i) y cais am loches; neu

(ii) y cais am ganiatâd yn ôl disgresiwn, os nad oedd cais am loches wedi ei wneud,

yn blentyn i'r person hwnnw neu'n blentyn i berson a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ar y dyddiad hwnnw;"; ac

(c) yn lle paragraff 5(3)(c), rhodder—

"(c) a oedd o dan 18 oed ar y dyddiad y gwnaeth y person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros—

(i) y cais am loches; neu

(ii) y cais am ganiatâd yn ôl disgresiwn, os nad oedd cais am loches wedi ei wneud;".

Diwygio Rheoliadau 2012

6. Mae Rheoliadau 2012 wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 7 ac 8.

7. Yn rheoliad 2(1), yn y diffiniad o "person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros" ("*person with leave to enter or remain*"), yn lle is-baragraff (a) rhodder—

"(a) sydd—

(i) wedi gwneud cais am statws ffoadur ond sydd, o ganlyniad i'r cais hwnnw, wedi ei hysbysu'n ysgrifenedig gan berson sy'n gweithredu o dan awdurdod Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref, y tybir ei bod yn iawn caniatáu i A ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi ar seiliau diogelwch dyngarol neu ganiatâd yn ôl disgresiwn er yr ystyrir nad yw A yn gymwys i gael ei gydnabod fel ffoadur; neu

(ii) heb wneud cais am statws ffoadur ond sydd wedi ei hysbysu'n ysgrifenedig gan berson sy'n gweithredu o dan awdurdod Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref y tybir ei bod yn iawn caniatáu i A ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi ar seiliau caniatâd yn ôl disgresiwn;".

8. Yn Rhan 2 o Atodlen 1—

(a) yn lle paragraff 5(2)(b), rhodder—

"(b) a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ar y dyddiad y gwnaeth y person hwnnw—

(i) y cais am loches; neu

(ii) y cais am ganiatâd yn ôl disgresiwn, os nad oedd cais am loches wedi ei wneud;";

(b) yn lle paragraff 5(3)(b), rhodder—

"(b) a oedd, ar y dyddiad y gwnaeth y person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros—

(i) y cais am loches; neu

(ii) y cais am ganiatâd yn ôl disgresiwn, os nad oedd cais am loches wedi ei wneud,

yn blentyn i'r person hwnnw neu'n blentyn i berson a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ar y dyddiad hwnnw;"; ac

(c) yn lle paragraff 5(3)(c), rhodder—

"(c) a oedd o dan 18 oed ar y dyddiad y gwnaeth y person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros y canlynol;

(i) y cais am loches; neu

(ii) y cais am ganiatâd yn ôl disgresiwn, os nad oedd cais am loches wedi ei wneud;".

Diwygio Rheoliadau'r Sefydliadau Ewropeaidd

9. Mae Rheoliadau'r Sefydliadau Ewropeaidd wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 10 ac 11.

10. Yn rheoliad 3(1), yn y diffiniad o "person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros" ("*person with leave to enter or remain*"), yn lle is-baragraff (a) rhodder—

"(a) sydd—

(i) wedi gwneud cais am statws ffoadur ond sydd, o ganlyniad i'r cais hwnnw, wedi ei hysbysu'n ysgrifenedig gan berson sy'n gweithredu o dan awdurdod Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref, y tybir ei bod yn iawn caniatáu i P ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi ar seiliau diogelwch dyngarol neu ganiatâd yn ôl disgresiwn er yr ystyrir nad yw P yn gymwys i gael ei gydnabod fel ffoadur; neu

(ii) heb wneud cais am statws ffoadur ond sydd wedi ei hysbysu'n ysgrifenedig gan berson sy'n gweithredu o dan awdurdod Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref y tybir ei bod yn iawn caniatáu i P ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi ar seiliau caniatâd yn ôl disgresiwn;".

11. Yn Rhan 2 o Atodlen 1—

(a) yn lle paragraff 5(2)(b), rhodder—

"(b) a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ar y dyddiad y gwnaeth y person hwnnw—

(i) y cais am loches; neu

(ii) y cais am ganiatâd yn ôl disgresiwn, os nad oedd cais am loches wedi ei wneud;";

(b) yn lle paragraff 5(3)(b), rhodder—

"(b) a oedd, ar y dyddiad y gwnaeth y person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros—

(i) y cais am loches; neu

(ii) y cais am ganiatâd yn ôl disgresiwn, os nad oedd cais am loches wedi ei wneud,

yn blentyn i'r person hwnnw neu'n blentyn i berson a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ar y dyddiad hwnnw;"; ac

(c) yn lle paragraff 5(3)(c), rhodder—

"(c) a oedd o dan 18 oed ar y dyddiad y gwnaeth y person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros—

(i) y cais am loches; neu

(ii) y cais am ganiatâd yn ôl disgresiwn, os nad oedd cais am loches wedi ei wneud,".

Diwygio Rheoliadau'r Athrofa Brifysgol Ewropeaidd

12. Mae Rheoliadau'r Athrofa Brifysgol Ewropeaidd wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 13 i 15.

13. Yn rheoliad 3, yn y diffiniad o "person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros" ("*person with leave to enter or remain*"), yn lle paragraff (a) rhodder—

"(a) sydd—

(i) wedi gwneud cais am statws ffoadur ond sydd, o ganlyniad i'r cais hwnnw, wedi ei hysbysu'n ysgrifenedig gan berson sy'n gweithredu o dan awdurdod Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref, y tybir ei bod yn iawn caniatáu i'r person hwnnw ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi ar seiliau diogelwch dyngarol neu ganiatâd yn ôl disgresiwn er yr ystyrir nad yw'n gymwys i gael ei gydnabod fel ffoadur; neu

(ii) heb wneud cais am statws ffoadur ond sydd wedi ei hysbysu'n ysgrifenedig gan berson sy'n gweithredu o dan awdurdod Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref y tybir ei bod yn iawn caniatáu i'r person hwnnw ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi ar seiliau caniatâd yn ôl disgresiwn;".

14. Yn Rhan 1 o Atodlen 1, ym mharagraff 1(1), yn y diffiniad o "aelod o deulu" ("*family member*") yn lle is-baragraff (a)(ii) rhodder—

"(ii) disgynyddion uniongyrchol y person neu ddisgynyddion uniongyrchol priod neu bartner sifil y person sydd—

(aa) o dan 21 oed; neu

(bb) yn ddibynyddion y person neu'n ddibynyddion priod neu bartner sifil y person; neu".

15. Yn Rhan 2 o Atodlen 1—

(a) yn lle paragraff 5(2)(b), rhodder—

"(b) a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ar y dyddiad y gwnaeth y person hwnnw—

(i) y cais am loches; neu

(ii) y cais am ganiatâd yn ôl disgresiwn, os nad oedd cais am loches wedi ei wneud;";

(b) yn lle paragraff 5(3)(b), rhodder—

"(b) a oedd, ar y dyddiad y gwnaeth y person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros—

(i) y cais am loches; neu